O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2506 (Cy. 275)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12, Tal-y-bont i Gyffordd 13, Abergwyngregyn, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *8 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Hydref 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12, Tal-y-bont i Gyffordd 13, Abergwyngregyn, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 23.59 o'r gloch ar 8 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" (*"the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd 3.25 metr o led neu fwy gael ei yrru ar y darnau hynny o'r gefnffordd a nodir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 40mya ar y darnau hynny o'r gefnffordd a nodir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10mya ar y darnau hynny o'r gefnffordd a nodir yn Atodlen 3.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 27 Medi 2012

*R Morgan*
***R MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Gwahardd cerbydau 3.25 metr o led neu fwy

Y darn hwnnw o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 12, Llys y Gwynt, Llandygái a Chyffordd 13, Abergwyngregyn.

## ATODLEN 2

### Terfynau'r cyfyngiad cyflymder o 40mya

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt yng nghanol trosbont Tal-y-bont i bwynt yng nghanol trosbont Madryn.

## ATODLEN 3

### Terfynau'r cyfyngiad cyflymder o 10mya

(i) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain o bwynt 131 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ynys hollti Cyffordd 12, Tal-y-bont i bwynt 3,197 o fetrau i'r dwyrain o ynys hollti Cyffordd 12, Tal-y-bont.

(ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin o bwynt 439 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ynys hollti Cyffordd 13, Abergwyngregyn i bwynt 2,630 o fetrau i'r dwyrain o ynys hollti Cyffordd 12, Tal-y-bont.